OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1225 (Cy.83) (C.55)

TAI, CYMRU
YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, CYMRU
LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2005

Wedi'i wneud - - 26 Ebrill 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 93(2)(b) a 94(2) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2005.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr "y dyddiad cychwyn" ("*the commencement date*") yw 30 Ebrill 2005; a

(b) mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni, oni nodir yn wahanol, yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 ac Atodlenni iddi.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

Darpariaethau sy'n dod i rym ar y dyddiad cychwyn

2. Mae darpariaethau canlynol Rhan 2 (Tai) yn dod i rym ar y dyddiad cychwyn—

(a) adran 12 (ymddygiad gwrthgymdeithasol: polisïau a gweithdrefnau landlordiaid);

(b) adran 14 ac Atodlen 1 (sicrwydd deiliadaeth: ymddygiad gwrthgymdeithasol) (tenantiaethau isradd) i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym;

(c) adran 15 (tenantiaethau byrddaliol sicr isradd).

(**1**) 2003 p.38.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

D. Elis-Thomas
26 Ebrill 2005 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.